# CYNGOR SIR Y FFLINT
# DYDD IAU, 22 GORFFENNAF 2021

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Iau, 22 Gorffennaf 2021

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Joe Johnson (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Mike Allport, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, David Cox, Paul Cunningham, Jean Davies, Robert Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dave Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Paul Johnson, Christine Jones, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Neville Phillips, Ian Roberts, Tim Roberts, Kevin Rush, Tony Sharps, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley.

**YMDDIHEURIADAU:**
Cynghorwyr: Bernie Attridge, Derek Butler, Helen Brown, Rita Johnson, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, ac Aaron Shotton

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a’r Economi); Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant); Prif Swyddog (Tai ac Asedau); Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd a’r Tad Daniel Caldwell ar gyfer gweddi.

## 17. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 1 Ebrill a 25 Mai.

Cafodd y cofnodion eu cynnig gan y Cynghorydd Chris Bithell a’u heilio gan y Cynghorydd Ralph Small a’u cymeradwyo fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo'r ddwy set o gofnodion fel cofnod cywir.

## 18. DATGAN CYSYLLTIAD

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y byddai cysylltiad personol yn cael ei gofnodi ar gyfer pob Aelod ar yr eitem Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2021/22 (eitem rhif 12 ar yr agenda).

## 19. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y newyddion trist o farwolaeth ddiweddar y cyn Gynghorwyr Dennis Parry, John Beard ac Eric Owen a oedd i gyd wedi bod yn

Aelodau o'r Cyngor. Cyfeiriodd hefyd at farwolaeth sydyn Mike Catherall a oedd yn aelod gwerthfawr iawn o Dîm Gwasanaethau Stryd a Chludiant y Cyngor.

Wrth dalu teyrnged fe ddywedodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd Dennis Parry wedi cynrychioli Ward Chwitffordd o 1995-1999, ac ei fod yn gadeirydd o'r Pwyllgor Addysg rhwng 1996 ac 1999. Arferai'r Cynghorydd Parry fod yn aelod o Gyngor Bwrdeistref Delyn a Chyngor Sir Clwyd ac yn Arweinydd y Cyngor nes adsefydlu llywodraeth leol yn 1996.

Roedd y Cynghorydd John Beard yn aelod Llafur a fu'n cynrychioli Ward Dwyrain Shotton o 1997. Roedd y Cynghorydd Beard yn aelod o'r Gweithrediaeth ac wrth adael y rôl hon cafodd ei benodi yn Gadeirydd o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Economi a'r Amgylchedd nes iddo ymddeol o'r Cyngor yn dilyn etholiadau 2008.

Cynrychiolodd y Cynghorydd Eric Owen Ward Golftyn yng Nghei Connah o 2008 i 2012 ac roedd yn aelod o'r Grŵp Cynghrair Annibynnol. Fe wasanaethodd ar Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Thai ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Roedd Mr Mike Catherall yn gyflogai hir oes o'r Cyngor a weithiodd yn y Gwasanaeth Gwastraff a Chasglu Deunyddiau Ailgylchu a Chanolfan Ailgylchu Gwastraff Tŷ Nercwys. Roedd Mr Catherall yn aelod poblogaidd ac uchel ei barch o'r Tîm Gwasanaethau Stryd a Chludiant.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau sefyll am funud o dawelwch fel teyrnged iddynt.

Talodd y Cynghorydd Paul Shotton deyrnged i'r Cynghorydd Dennis Parry.

Talodd y Cynghorydd Veronica Gay deyrnged i'r Cynghorydd Eric Owen.

Talodd y Cynghorydd Ian Roberts, Aelod y Cyngor, deyrnged i'r Cynghorwyr Dennis Parry, John Beard ac Eric Owen. Siaradodd am ei gysylltiad â phob un a'u rhinweddau personol, cyraeddiadau, a chyfraniad sylweddol i waith y Cyngor. Dywedodd y Cynghorydd Roberts hefyd am y golled drist o farwolaeth Mike Catherall a mynegodd ei gydymdeimlad i'w partneriaid, teuluoedd a chyfeillion.

Mynegodd y Prif Weithredwr ei gydymdeimlad hefyd ar ran y swyddogion i deuluoedd a ffrindiau'r cyn gydweithwyr.

Ailadrodd y Cynghorydd Glyn Banks y teimladau a gafodd eu mynegi a thalodd deyrnged i'r Cynghorydd Dennis Parry a Mike Catherall. Dywedodd y byddai colled fawr ar eu holau a mynegodd ei gydymdeimlad i'w partneriaid a'u teuluoedd.

Talodd y Cynghorydd Ron Davies deyrnged i'r Cynghorwyr John Beard a Dennis Parry. Siaradodd am ei berthynas agos gyda'r Cynghorydd Beard fel cydweithiwr a chyfaill.

Talodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) deyrnged i Mike Catherall a siaradodd am y sioc ynglŷn â'r newyddion trist iawn o'i farwolaeth sydyn. Dywedodd ei fod yn aelod gwerthfawr iawn o'r Gwasanaeth a byddai ei

gydweithwyr yn ei golli'n fawr. Diolchodd i'r Aelodau am eu cefnogaeth a'u negeseuon o gydymdeimlad ac mi fyddai'n eu pasio ymlaen i'w deulu a'r Tîm Gwasanaethau Stryd a Chludiant.

Mynegodd y Cadeirydd ei ddymuniadau gorau am wellhad buan i Gynghorwyr Bernie Attridge a Derek Butler a oedd methu mynychu oherwydd salwch difrifol.

Cyhoeddodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd David Williams wedi cyflwyno ei ymddiswyddiad fel Aelod o'r Cyngor i gael ei weithredu ar unwaith yn dilyn y cyfarfod hwn. Dyma fo'n gwahodd y Cynghorydd Williams i siarad. Meddai'r Cynghorydd Williams mai gyda thristwch y mae'n rhaid iddo gyflwyno ei ymddiswyddiad a gwnaeth sylwadau am y rhesymau dros ei benderfyniad. Fe dalodd deyrnged i Aelodau, swyddogion a staff mewn nifer o Wasanaethau'r Cyngor a oedd wedi rhoi eu cefnogaeth werthfawr iddo yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Dyma'r Prif Weithredwr yn diolch i'r Cynghorydd Williams am ei gydnabyddiaethau a dymunodd yn dda iddo ar ran y Cyngor ar gyfer y dyfodol.

Dyma'r Cynghorydd Dennis Hutchinson yn diolch i'r Cynghorydd Williams am ei gefnogaeth bersonol ac fe fynegodd ddymuniadau gorau iddo ar gyfer y dyfodol.

## 20. DEISEBAU

Nid oedd unrhyw ddeisebau.

## 21. DEMOCRATIAETH LEOL A'R COMISIWN FFINIAU I GYMRU: DIWEDDARIAD AR ADOLYGIAD FFINIAU WARD SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad i roi'r sefyllfa bresennol ar yr adolygiad o Ffiniau Ward Sir y Fflint. Fe ddarparodd wybodaeth gefndirol a chynghorodd bod disgwyl i'r Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol i basio Gorchmynion yn dilyn adolygiad o'r 22 prif gynghorau yng Nghymru ym mis Medi. Fe eglurodd fod yna 3 adolygiad lle byddai'r Gweinidog angen gwybodaeth bellach cyn gwneud y penderfyniad terfynol gyda Sir y Fflint yn un ohonyn nhw. Disgwylir fod adroddiad terfynol y Comisiynydd Ffiniau yn cael ei gymeradwyo gan y Gweinidog gydag ychydig neu ddim diwygiadau.

Meddai'r Prif Weithredwr fod y Cyngor yn cytuno gyda'r rhan fwyaf o'r cynigion yn yr adroddiad, fodd bynnag roedd pryder ar gyfer y cam terfynol, lle na fu unrhyw gyhoeddiad neu ymgynghoriad cyn y cam hwnnw, bod y Comisiwn wedi cyflwyno argymhelliad newydd ar gyfer un o'r tair ward Aelodau yn Fflint. Fe eglurodd efallai bod hyn wedi mynd y tu hwnt i weithdrefnau'r Comisiynydd Ffiniau ac yn gwrthdaro gydag amcan i geisio lle bynnag fo hynny'n bosib creu wardiau aelodau sengl. Fe ddywedodd y Prif Weithredwr fod hyn wedi cael ei godi gyda'r Gweinidog ac fe awgrymodd efallai y dymunai Aelodau ystyried diwygio'r argymhelliad yn yr adroddiad i gefnogi Arweinydd y Cyngor ac yntau i ofyn yn ffurfiol i'r Gweinidog, wrth ystyried cynnwys terfynol y Gorchymyn, i wrthdroi'r argymhelliad newydd yn benodol ar gyfer un ward gyda thri Aelod yn Fflint ar y sail ei fod wedi cael ei gyflwyno ar y cam terfynol a bod yna ddim cyfle wedi bod o flaen llaw i'w drafod neu ei graffu.

Yn siarad mewn cefnogaeth o bryderon y Prif Weithredwr fe awgrymodd y Cynghorydd Ian Roberts fod y cynnig i anfon llythyr at y Gweinidog yn cynnwys y pwyntiau crynhoi canlynol hefyd: na ddylai adroddiadau'r Comisiwn Ffiniau gael eu hanfon allan o fewn blwyddyn o gylchred arferol etholiadau ar gyfer awdurdodau lleol; ac yn y dyfodol gofynnir i'r Comisiwn Ffiniau i beidio â chynnwys unrhyw gynigion newydd yn fersiwn terfynol ei adroddiad; a bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i gysylltiadau cymunedau wrth i'r Comisiwn Ffiniau wneud adolygiadau yn y dyfodol.

Eglurodd y Prif Weithredwr fod y problemau ehangach a gyfeiriwyd atyn nhw gan y Cynghorydd Ian Roberts wedi cael eu trafod gyda'r Gweinidog ac yn sgil y cais gan y Cynghorydd Roberts awgrymodd bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn cael ei gwahodd yn ffurfiol i gefnogi'r amcanion wedi'u hamlinellu uchod.

Dyma'r Prif Swyddog (Llywodraethu) yn crynhoi y byddai'r cynnig gan y Cynghorydd Ian Roberts yn golygu byddai llythyr yn cael ei anfon at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol sy'n herio cynigion y Comisiwn Ffiniau ar gyfer un ward tri Aelod newydd ar gyfer Fflint am y rhesymau a amlinellir gan y Prif Weithredwr. Hefyd byddai'r llythyr yn cynnwys y tri phwynt crynhoi a godwyd gan y Cynghorydd Ian Roberts uchod a chais at CLILC i gefnogi'r egwyddorion yn gyffredinol. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Paul Cunningham.

Cyfeiriodd y Cynghorydd David Healey at y cynnig annisgwyl yn adroddiad terfynol y Comisiwn Ffiniau i uno Ward Caergwrle gyda Wardiau Llanfynydd a Threuddyn. Meddai'r Cynghorydd Healey fod hyn wedi digwydd heb unrhyw fynegiant neu gyfle o flaen llaw i'r cyhoedd ymgynghori ac roedd y pryderon a fynegwyd ynglŷn â chynigion y Comisiwn Ffiniau ar gyfer y Fflint hefyd yn berthnasol ar gyfer Wardiau Caergwrle, Llanfynydd a Threuddyn. Gofynnodd bod y cynnig gan y Cynghorydd Roberts uchod yn cael ei ddiwygio i gynnwys her bellach ar gynigion y Comisiwn ar gyfer Ward Caergwrle ar gyfer y rhesymau wedi'u hamlinellu. Cytunodd y Cynghorydd Ian Roberts i'r diwygiad gyda'r Cynghorydd Paul Cunningham yn eilio a daeth yn gynnig cadarn. Pan gafwyd pleidlais, cymeradwywyd hyn.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Bod llythyr yn cael ei anfon at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol sydd yn herio cynigion y Comisiwn Ffiniau ar gyfer ward tri Aelod i Fflint a'r cynnig i uno Ward Caergwrle gyda Wardiau Llanfynydd a Threuddyn gan ofyn iddyn nhw wrthdroi'r cynigion;

(b) Bod y llythyr at y Gweinidog hefyd yn cynnwys y tair egwyddor wedi'u hamlinellu uchod ar gyfer adolygiadau yn y dyfodol; a

(c) Bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn cael ei gwahodd yn ffurfiol i gefnogi'r egwyddorion wedi'u hamlinellu uchod.

22. **COMISIWN FFINIAU I GYMRU: 2023 ADOLYGIAD ETHOLAETHAU SENEDDOL**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr adroddiad ar y broses ar gyfer yr adolygiad ar y gweill o Etholaethau Seneddol Cymru.  Darparodd wybodaeth gefndirol gan wneud sylwadau fod yna gynnydd disgwyliedig yn mynd i fod ym maint yr etholaethau lleol a bod yr adolygiad yn gyffredinol yn golygu lleihad sylweddol yn nifer yr etholaethau yng Nghymru (o 40 i 32 etholaeth).

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig gan y Cynghorydd Ian Roberts a'i eilio gan y Cynghorydd Patrick Heesom.  Ar ôl eu rhoi i bleidlais, cymeradwywyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y broses i gael ei ddilyn yn ystod Comisiwn Ffiniau i Gymru; 2023 Adolygiad Etholaethau Seneddol yn cael ei nodi.

23. **DATGAN AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adroddiad yn gwahodd y Cyngor i gefnogi mewn egwyddor i Ddatgan Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Darparodd wybodaeth gefndirol a chynghorodd fod gofyn i bob un o'r 22 prif gynghorau yng Nghymru i wneud Datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

Gwahoddwyd y Cyngor Sir i adnabod pwysigrwydd hyn ac i ymrwymo i ddatblygu cynllun gweithredu i wella amrywiaeth mewn democratiaeth yn Sir y Fflint.  Pe bai'r Cyngor yn cytuno byddai Datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn cael ei wneud mewn egwyddor ac yna byddai gwaith manwl yn cael ei wneud i greu Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth Sir y Fflint i gael ei weithredu gan y pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a Chyfansoddiad.

Wrth siarad mewn cefnogaeth i Ddatganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth Sir y Fflint, cynigodd y Cynghorydd Christine Jones yr argymhellion yn yr adroddiad hwn a'u heiliwyd gan y Cynghorydd Billy Mullin.

Mynegodd y Cynghorydd Neville Phillips bryderon ynglŷn â chynigion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gyflwyno 'grantiau adsefydlu' i gynghorwyr os fyddan nhw'n colli eu seddi mewn etholiad. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod y cynnig yn rhywbeth i 'anelu ato' ar hyn o bryd ond heb ei gadarnhau.

Dywedodd y Cynghorydd Ron Davies fod angen rhoi caniatâd i gynghorwyr sydd mewn cyflogaeth i gael amser i ffwrdd o'r gwaith i fynychu cyfarfodydd yn ystod eu gwasanaeth cyhoeddus.  Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod darpariaeth yn barod i alluogi cyflogwyr i roi amser rhesymol i ffwrdd o'r gwaith i gynghorwyr fynychu cyfarfodydd. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod fod rhai cyflogwyr yn fwy cefnogol nag eraill.

Awgrymodd y Cynghorydd Ian Roberts y dylai'r Cyngor ofyn i CLlLC holi am ddatganiad i gael ei arwyddo gan gyflogwyr yn rhoi caniatâd i'w cyflogeion i gael amser i ffwrdd gyda thâl er mwyn gallu cyflawni gwasanaeth cyhoeddus.  Dyma

fo hefyd yn awgrymu y dylid adolygu arferion y Cyngor ei hun i ystyried os oes posib gwella trefniadau ar gyfer cyfarfodydd/gweithdai i gynghorwyr sydd mewn cyflogaeth.

Dywedodd y Cynghorydd Gladys Healey ei bod hi'n cefnogi sylwadau'r Cynghorydd Roberts.
Derbyniodd y Cynghorwyr Christine Jones a Billy Mullin yr argymhelliad i ysgrifennu at CLILC fel ychwanegiad i'r cynnig cadarn ac fe gafodd ei gario pan gyflwynwyd hynny i'r bleidlais.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Cyngor yn cydnabod y pwysigrwydd o amrywiaeth mewn democratiaeth ac wedi ymrwymo i ddatblygu cynllun gweithredu i wella amrywiaeth;

b) Bod y gwaith manwl i greu'r Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth Sir y Fflint yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a Chyfansoddiad; a

(c) Bod y Cyngor yn ysgrifennu at CLILC yn gofyn am ddatganiad i gael ei arwyddo gan gyflogwyr yn rhoi caniatâd i ryddhau cyflogeion ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus.

## 24. PROTOCOL AR WEITHREDU TU ALLAN I'R WARD

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad i ystyried y Protocol Aelodau ar Ymrwymiad mewn Wardiau Eraill diwygiedig. Darparodd wybodaeth gefndirol ac eglurodd bod y protocol presennol a luniwyd gan swyddogion statudol ac Arweinwyr Grŵp angen cael ei adolygu. Dyma fersiwn wedi'i ddiwygio yn cytuno i ymgynghoriad ffurfiol gael ei atodi i'r adroddiad a gafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a Chyfansoddiad yn y cyfarfod ar gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2021.

Cynigwyd yr argymhelliad canlynol gan y Cynghorydd Neville Phillips ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Chris Bithell.

Soniodd y Cynghorydd Owen Thomas am gysylltu ag Aelodau ynglŷn â materion cynllunio mewn wardiau eraill. Dyma'r Prif Weithredwr yn cydnabod y pwyntiau a wnaed gan y Cynghorydd Thomas ac eglurodd bod hynny wedi derbyn sylw yn Adran 2 – Eithriadau i'r Protocol, paragraff (f) a gafodd ei atodi i'r adroddiad. Rhybuddiodd hefyd wrth ymateb i ohebiaeth neu gynrychiolaethau y dylai aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio fod yn ofalus i beidio â rhoi'r argraff eu bod wedi dod i benderfyniadau terfynol ar gais cynllunio cyn iddo gael ei ystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio.

Gwnaeth y Cynghorydd Chris Bithell sylwadau ar y canllawiau yn y Cod Ymddygiad Cynllunio ynghylch aelodau ward cyfagos a gofynnodd a ddylai canllawiau tebyg gael eu cynnwys yn Adran 2 o'r Protocol. Wrth ymateb i hynny fe gynghorodd y Prif Swyddog ynglŷn ag ymrwymiad Aelodau mewn materion cynllunio mewn ward gyfagos a oedd yn cael effaith ar ei ward nhw. Cynghorodd er eu bod nhw'n cynrychioli diddordebau preswylwyr yn ward eu hunain ni

fyddai'r Aelod yn torri'r Protocol o dan yr amgylchiadau hyn ond cytunodd y byddai modd cynnwys hyn yn y Protocol er mwyn bod yn glir.

Wrth gyfeirio at Adran 3, paragraff 3.2 o'r Protocol dywedodd y Cynghorydd Paul Shotton y dylai Aelodau ddatgan ward eu hunain ar gyfer tryloywder.
Wedi ei gynnig a'i eilio fe dderbyniodd y Cynghorwyr Neville Phillips a Chris Bithell yr awgrym fod y Protocol yn cael ei ddiwygio fel yr uchod ar yn ychwanegiad i'r cynnig cadarn. Pan gafwyd pleidlais, cymeradwywyd hyn.

**PENDERFYNWYD:**

Yn ddarostyngedig i'r diwygiad uchod bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Protocol Aelodau ar Ymrwymiad mewn Wardiau Eraill 2021 diwygiedig.

## 25. DIWYGIADAU I REOLAU'R WEITHDREFN

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad i ystyried y Protocol o Reolau'r Weithdrefn ddiwygiedig. Cynghorodd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Medi bod y Cadeirydd wedi cytuno i'r newidiadau dros dro i rai o'r Rheolau, a dosbarthwyd y rhain. Byddai Cyfarfodydd Presenoldeb o Bell yn parhau wrth i'r Cyngor symud tuag at 'gyfarfodydd aml-leoliad' sydd yn ofyniad yn y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r hyn oedd yn newidiadau dros dro bellach angen cael eu mabwysiadu yn ffurfiol gan y Cyngor wrth i'r Cyngor ddatblygu polisi ar gyfarfodydd aml-leoliad. Cefnogwyd y newidiadau i Reolau'r Weithdrefn o fod yn rhai dros dro i rai parhaol gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a Chyfansoddiad yn ei gyfarfod ar 30 Mehefin 2021.

Cynghorodd y Prif Swyddog fod y Ddeddf yn gofyn i'r Cyngor ddatblygu a chyhoeddi ei bolisi ar ba gyfarfodydd a fyddai'n cael eu cynnal mewn person, o bell neu fel cyfarfod hybrid, a byddai'r rheolau yn berthnasol i bob un. Byddai'r Cyngor angen datblygu ei bolisi 'cyfarfodydd aml-leoliad' ei hun cyn Mai 2022. Byddai adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a Chyfansoddiad, ac i'r Cyngor.
Wedi'i atodi i'r adroddiad oedd y newidiadau sydd angen eu hymgorffori yn Rheolau'r Weithdrefn i'w gwneud nhw'n berthnasol i gyfarfodydd aml-leoliad.

Cynigwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Neville Phillips a'u heiliwyd gan y Cynghorydd Rob Davies, a'u cymeradwywyd wedi pleidlais.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Cyngor yn ystyried a chymeradwyo'r newidiadau i Reolau'r Weithdrefn fel y gwelir yn atodiad 1; a

(b) Bod gwaith pellach yn cael eu gwneud i ddatblygu polisi Sir y Fflint ar gyfarfodydd aml-leoliad.

## 26. PENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad gyda manylion ar yr ymgeisydd a ffafrir ar gyfer swydd wag Aelod Annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.

Darparodd y Prif Swyddog wybodaeth gefndirol a chyfeiriodd at y swydd wag ar gyfer Aelod Annibynnol (cyfetholedig) ar y Pwyllgor Safonau. Adroddodd fod hysbyseb wedi'i roi yn y wasg leol ac ar-lein. Roedd pedwar ymgeisydd, gyda thri yn cyrraedd y rhestr fer ac yn cael cyfweliad. Roedd dau ymgeisydd yn addas ar gyfer y penodiad ac argymhellwyd fod Jacqueline Guest a David Davies yn cael eu penodi. Byddai Jacqueline Guest yn dechrau ar ei phenodiad ar unwaith gan lenwi'r swydd wag ar y Pwyllgor. Byddai penodiad David Davies yn effeithiol o 1 Ionawr 2022 pan fydd Aelod Annibynnol presennol â'r bwriad o roi gorau i'r rôl.

Wrth symud yr argymhellion, fe ddywedodd y Cynghorydd Paul Johnson y byddai'r penodiadau newydd yn dod â sgiliau a rhinweddau personol pwysig i'r Pwyllgor Safonau. Mynegodd ei werthfawrogiad am waith a chyfraniad gwerthfawr Rob Dewey a Phillipa Earlam i'r Pwyllgor. Eiliodd y Cynghorydd Marion Bateman yr argymhelliad gan fynegi y byddai'r aelodau newydd yn ased. Cymerodd y cyfle hefyd i ddiolch i'r Cynghorydd Paul Johnson am ei waith i'r Pwyllgor.

Ar ôl eu rhoi i bleidlais, cymeradwywyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod Jacqueline Guest yn cael ei phenodi ar y Pwyllgor Safonau tan 21 Gorffennaf 2027;

(b) Bod David Davies yn cael ei benodi i'r Pwyllgor Safonau o 1 Ionawr 2022 tan 31 Rhagfyr 2027;

(c) I ddiolch i Noela Jones am fod yn Lleygwr ar y Pwyllgor

(d) I ddiolch i Phillipa Earlam am ei gwaith ar y Pwyllgor.

## 27. RHESTR O GYDNABYDDIAETHAU ARIANNOL AR GYFER 2021/22

Fe gyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar yr Atodlen o Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer Aelodau etholedig a chyfetholedig ar gyfer 2021/22. Cynghorodd fod y Cyngor angen darparu Atodlen o Gydnabyddiaeth Ariannol yn flynyddol a bod yr Atodlen ar gyfer 2021/22 wedi'i atodi i'r adroddiad. Roedd yn rhaid ei gyhoeddi a'i anfon i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol erbyn 31 Gorffennaf.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod yna dair swydd gyfetholedig yn wag ar hyn o bryd ar gyfer rhiant-lywodraethwyr ar y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant. Derbyniwyd enwebiadau a byddai etholiad yn cael ei gynnal yn fuan.

Gofynnwyd i'r Cyngor awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i ychwanegu enwau'r aelodau cyfetholedig ar yr Atodlen a'i ailgyhoeddi fel bo'r angen ac i wneud unrhyw newidiadau pellach i'r Atodlen wrth iddyn nhw godi.

Cynigiodd y Cynghorydd Billy Mullin i gymeradwyo'r argymhellion ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Paul Shotton. Ar ôl eu rhoi i bleidlais, cymeradwywyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod yr Atodlen o Gydnabyddiaeth Tâl ar gyfer 2021/22 sydd ynghlwm yn yr adroddiad, yn cael ei gymeradwyo i'w gyhoeddi; ac

(b) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i ychwanegu enwau'r aelodau cyfetholedig ar yr Atodlen a'i ailgyhoeddi fel bo'r angen ac i wneud unrhyw newidiadau pellach i'r Atodlen wrth iddyn nhw godi.

**28. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Dim.

**29. CWESTIYNAU**

Dim.

**30. RHYBUDD O GYNNIG**

Dim.

**31. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.42am)

..................................................
**Cadeirydd**